**CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yn Festri Carmel, Pren-gwyn, ar 11eg Ionawr 2016**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Carmel Vestry, Prengwyn, on 11th January 2016**

**Yn Bresennol/Present**:
Cyng/Cllrs Keith Evans, Tom Cowcher, Eileen Curry, Douglas Davies, Roy Davies, Wyn Evans, Terry Griffiths, Andrew Howell, Aled Jones, Gethin Jones, Carolyn Reed-Rees, Abby Reid, Beth Davies a Chynghorwyr Sir Peter Davies a Peter Evans

1 **Ymweliad/Visit** –

Estynnwyd croeso cynnes i'r Parch Aled Jones a Ficer Gareth Reid, yr oeddent yn bresennol yn y cyfarfod. Mynegodd y Gweinidog, Parch Aled Jones, ei ddiolchgarwch i'r Cyngor Cymuned am eu rhodd wrth helpu i dalu am y gwaith o adnewyddu'r festri. Bydd hwn yn ased gwerthfawr i'r Gymuned. / A warm welcome was given to Rev Aled Jones and Vicar Gareth Reid who was present at the meeting. The Minister Rev Aled Jones expressed his gratitude and thanks to the Community Council for their donation in helping fund the renovation of the vestry. This will be a valuable asset for the Community.

Nid oedd Siân Davies PCSO yn bresennol yn y cyfarfod gan nad oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi digwydd yn y Gymuned. / Sian Davies PCSO was not present at the meeting as she had no incidents had happened in the Community.

1 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Dim/None

2 **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest:** Datgelwyd budd gan Gynghorwyr Eileen Curry, Beth Davies a Peter Davies mewn perthynas â'r cais am gyllid gan Neuadd Tre-groes. There were declerations of interest from Cllrs Eileen Curry, Beth Davies and Peter Davies with regards to the funding applicaiton from Tregroes Hall.
Gwnaeth Cynghorwyr Peter Davies a Peter Evans ddatgelu eu budd yn y broses ymgynghori Cynllunio, gan adael y cyfarfod ar yr adeg hon. / Cllrs Peter Davies and Peter Evans declared their interest in the Planning consultation process and withdrew from the meeting at this point.

3 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2015 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd. /Minutes of monthly meeting held on 14h December 2015 were accepted as correct and signed by the Chair.

**Materion yn Codi:-**

**Goleuadau ar Riw Seion** – Cafwyd neges e-bost a oedd yn nodi y byddai'r goleuadau yn cael eu symud oddi yno dros y Nadolig, ond y byddent yn dychwelyd erbyn yr adeg pan fyddai ysgolion yn ailagor o ganlyniad i anghydfod gyda Thai Ceredigion ynghylch hawl tramwy cyhoeddus trwy safle Glascoed. Ar 11/01/16, nid oedd y goleuadau wedi dychwelyd.

**Trawsnewid Busnes Ceredigion** – Roedd y clerc wedi ysgrifennu i ofyn a fyddai modd i Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor fynychu ein cyfarfod ym mis Ionawr. Cafwyd neges e-bost a oedd yn nodi na fyddai'r Arweinydd ar gael ar ail nos Lun y mis trwy gydol y flwyddyn, ond y byddai modd iddynt drefnu bod Cynghorydd Dafydd Edwards a'r Dirprwy Brif Weithredwr, Eifion Evans, yn mynychu. Roedd y Cadeirydd wrth gwrthod y cynnig hwn gan bod y Cyngor wedi nodi mewn ffordd eglur eu bod yn dymuno cael cyfarfod gyda'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr. Penderfynwyd ysgrifennu at yr Awdurdod unwaith eto, gan ofyn i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr ymrwymo i fynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned yn Llandysul, gan roi dyddiadau amgen er mwyn cynnal cyfarfod gyda'r hwyr. Byddai'r Cyngor Cymuned yn cynnull cyfarfod ar gyfer y dyddiadau a gynigiwyd.

**Ailgylchu Eitemau Trydanol Bach** – Cafwyd posteri yn hysbysebu'r cyfle i ailgylchu eitemau trydanol bach, a gynhelir ym mhrif faes parcio Llandysul ar 23/01/16 rhwng 10.00 a 4.00. Dosbarthwyd posteri i'r aelodau er mwyn eu harddangos yn y Gymuned.

**Materion y mae Angen gwneud Penderfyniadau Amdanynt**

**4) Ceisiadau Ariannol:-**

Ni chafwyd unrhyw geisiadau ariannol.

5) **Materion i'w trafod**

**Parc Coffa/Lle chwarae i blant** – Roedd Cyng Keith Evans wedi cyflwyno ffurflen Tendro Ddrafft ar gyfer lle Chwarae Parc Coffa Llandysul, ynghyd â thaflen Manyleb cynnal a chadw. Penderfynwyd gwneud un ychwanegiad i bwynt 11 ar ffurflen y fanyleb, sef 'ymgynghori a chael cyswllt gyda'r Cyngor Cymuned' a hefyd, newid Amlder Dewis 2 o 3 wythnos i bythefnos.

**Matters Arising:-**

**Lights on Seion** Hill- An email had been received stating that the lights would be removed during the Christmas Period but re-instated by the time the schools would re-open due to a dispute with Tai Ceredigion regards public right of way through the grounds of Glascoed. As of 11/01/16 the lights had not returned.

**Business Transformation Ceredigion** – The clerk had written to ask if the Leader and Chief Executive of the Council could attend our January meeting. An email had been received stating that the Leader would be unavailable every second Monday of the month throughout the year but they could make available Councillor Dafydd Edwards and Deputy Chief Executive Eifion Evans to attend. The Chairman had declined this offer as the Council had clearly stated that their request was to meet with the Leader and Chief Executive. It was decided to write to the Authority requesting again that the Leader and Chief Executive commit to attending a meeting of the Community Council at Llandysul and to provide alternative dates for an evening meeting. The Community Council would convene a meeting for the dates proposed.

**Recycling Small Electrical Items** – Posters had been received to advertise the recycling of small electrical items to be held in the main Llandysul car park on 23/01/16 10.00-4.00. Posters were distributed to members to display in the Community.

**Matters Requiring Decisions**

**4) Funding Applications:-**

No funding applications was received.

5) **Matters for discussion**

**Memorial Park/Childrens play area** – Cllr Keith Evans had forwarded a Draft Tender form for Llandysul Memorial Park Play area together with a maintenance Specification sheet. It was decided to add one addition to point 11 on the specification form to read ‘consult and liaise with the Community Council’ and also Option Frequency 2 from 3 weeks to 2 weeks.

It was requested that Clerk also reproduces plan copies of the area as provided by Ceredigion of

Yn ogystal, gofynnwyd i'r Clerc i atgynhyrchu copïau o gynllun y lle chwarae fel a ddarparwyd gan Geredigion, fel y byddai Contractwyr yn ymwybodol o'r ardal dal sylw. Yn dilyn y diwygiadau, penderfynwyd y byddai'r clerc yn trefnu eu bod yn cael eu cyfieithu ac yn cael eu hanfon ymlaen at yr holl aelodau.

**Llechen Goffa** : Roedd Cyng Keith Evans wedi ymweld â saer maen yn Llanybydder, ond roedd y saer maen wedi gwrthod rhoi dyfynbris o ganlyniad i gymhlethdod y gwaith, ond roedd wedi awgrymu y dylid ystyried cynnwys yr enwau ar gât a'u hatgynhyrchu ar bres, copr neu ddur gwrthstaen. Penderfynwyd y byddai Cyng Keith Evans yn archwilio'r dewis hwn ymhellach, sef cynnwys plac ar y gât, gan ofyn am brisiau gan gontractwyr arbenigol ar gyfer yr elfen hon, yn ogystal â gât newydd ar ôl trafod y mater gyda Ymddiriedolwyr y parc Coffa er mwyn cael eu safbwyntiau nhw.

**Lle Chwarae i Blant**

Esboniodd Cyng Abby Reid bod cryn dipyn o Fwsogl ar yr offer chwarae. Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu at Abacus Cleaning a gofyn am ddyfynbris er mwyn glanhau'r mwsogl oddi ar yr offer chwarae yn y parc ac o'i gwmpas.

**Materion Wardiau**

Gwnaeth y Cadeirydd longyfarch Siop Dewi yng Nghapel Dewi ar gael ei chynnwys mewn rhestr fer am wobr arall gan y Gynghrair Cefn Gwlad. Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu at bwyllgor Siop Dewi i'w llongyfarch am eu cyflawniadau yn y gorffennol ac i ddymuno pob lwc iddynt.

**Praesept**

Cafwyd llythyr gan Gyngor Sir Ceredigion mewn perthynas â threfniadau praesept 2016/17. O ganlyniad i bwysau ariannol ychwanegol sylweddol ar wirfoddolwyr yn ein cymuned oherwydd y ffaith bod Cyngor Sir Ceredigion wedi tynnu cymorth ariannol a gwasanaethau yn ôl, roedd y Cyngor Cymuned yn wynebu mwy o geisiadau am gymorth gan sefydliadau a gwirfoddolwyr i gynnal y gwasanaethau hyn yn Llandysul. Yn dilyn trafodaethau hir ynghylch y ffaith na fu codiad yn y praesept er 2005, penderfynwyd codi'r praesept 20%, a fyddai'n rhoi swm pellach o £6502.00. Bydd y Cadeirydd yn paratoi hysbysiad i'w anfon ymlaen at yr holl

the play area so that Contractors would be aware of the area under consideration. Following the amendments it was decided that the clerk arranged for them to be translated and forward to all members.

**Memorial Tablet** : Cllr Keith Evans had visited a stonemason in Llanybydder, but the stone mason had declined to provide a quotation due to the complexes involved, but had suggested that consideration be given the names being incorporated into a gate and reproduced on brass, copper or stainless steel. It was decided that Cllr Keith Evans explore further this option of potential incorporating a plaque into the gate and to seek prices from specialist contractors for this element as well as a replacement gate having discussed the issue with Memorial park Trustees to ascertain their views.

**Children's Play area**

Cllr Abby Reid explained that there was a lot of Moss on the play equipment. It was decided that the clerk write to Abacus Cleaning for a quote for cleaning the moss on and around the play equipment in the park..

**Ward Matters**

The Chairman congratulated Siop Dewi in Capel Dewi on being shortlisted for another award from the Countryside Alliance. It was decided that the clerk writes to the committee of Siop Dewi to congratulate them on past achievements and wish them gook luck.

**Precept**

A letter had been received from Ceredigion County Council in respect of 2016/17 precept arrangements. Due to considerable additional financial pressures being placed on volunteers in our community as a consequence of the withdrawal of financial support and services by Ceredigion County Council, the Community Council was witnessing an increased request for support from organisations and volunteers to sustain these services in Llandysul. Following lengthy discussions including the fact that there had been no increase in the precept since 2005,it was decided to raise the precept by 20% which would yield a further £6502.00. The Chairman will prepare a notice to be forwarded to all councillors and put up on the website with regards to the details. 7 Councillors voted for

gynghorwyr ac i'w roi ar y wefan, yn nodi'r manylion. Gwnaeth 7 Cynghorydd bleidleisio dros y cynnig a 5 yn ei erbyn, ac ni wnaeth y Cadeirydd bleidleisio. Penderfynwyd y dylai'r clerc anfon ateb i'r Cyngor Sir.

**Llyfrgell Llandysul**

Esboniodd Cyng Peter Evans bod y Cyngor Sir yn ystyried gwahanol gynlluniau ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau na fyddai'n rhaid cau Llyfrgell Llandysul. Cawsom ein hysbysu y byddai penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cabinet ar 2/2/16.

6) **Cydnabyddiaeth derbyn rhoddion**

Dim

Gohebiaeth

Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 14 Rhagfyr a 10 Ionawr 2016.

Cafwyd y canlynol wrth

**Geredigion:-** Cafwyd gwahoddiad i'r Cyngor enwebu safle ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2020. Cafwyd rhestr o'r gofynion ar gyfer y safle hefyd. Teimlwyd na fyddai unrhyw le yn yr ardal yn gallu bodloni'r gofynion penodedig.

**ULlC/SLCC/ Clerks and Councils Direct** – Cafwyd hysbysiad ynghylch Cyfarfod Ardal Ceredigion a gynhelir ar 20 Ionawr 2016; bydd Cyng Andrew Howell yn mynychu ar ran y Cyngor Cymuned.

**GIG Cymru** – Gwahoddiad i fynychu cyfarfod yn Neuadd Goffa Aberaeron ar 19/01/16 am 6.00-8.00 i drafod Trawsnewid Ymgysylltu Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Nid oedd unrhyw gynrychiolwyr ar gael i fynychu ar ran y Cyngor Cymuned.

**Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion** – Cafwyd cais am rodd. Roedd y clerc wedi anfon ffurflen gais atynt i'w llenwi.

7 **Cynllunio**: Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 13.01.16.

Archwiliwyd y cynlluniau canlynol fel rhan o'r

the proposal with 5 voting against with the Chairman not casting a vote. It was decided that the clerk reply to the County Council.

**Llandysul Library**

Cllr Peter Evans explained that at the moment the County Council was looking into different schemes so that Llandysul Library would not be closed. We were advised that a decision would be made by Cabinet on 2/2/16.

6) **Acknowlege receipt of donation**

None

Correspondence

Emails –A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 14th December– 10 January 2016 was tabled.

The following **were** received from

**Ceredigion:-** An invitation was received inviting the Council to nominate a site for the National Eisteddfod in 2020. A list of site requirements had also been received It was felt that there was nowhere in the area that would meet the specified requirements.

**OVW/SLCC/ Clerks and Councils Direct** – Notice of Ceredigion Area Meeting on 20 January 2016 was received; Cllr Andrew Howell will be attending on behalf of the Community Council.

**NHS Wales** – An invitation to attend a meeting at Aberaeron Memorial Hall 19/01/16 at 6.00-8.00 to dicuss the Tranformation of Mental Health Servieces Engagement. No representatives were available to attend on behalf of Community Council.

**Ceredigion Young Farmers Club**– A request for a donation was received. The clerk had sent them an application form for completion.

7 **Planning**: Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 13.01.16 was received.

The following plans were inspected as part of the consultation process with no objections:-

A151015 – Pyllau’r Bryn, Rhydowen, Electricity Lines

broses ymgynghori, ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-
A151015 – Pyllau'r Bryn, Rhydowen, Llinellau Trydan
A15084 – Llynddwr, Llandysul – Adnewyddu hen ffermdy a beudy er mwyn creu annedd

---

8) Gwybodaeth Ariannol

**Anfonebau:**-
*(i)* Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Rhagfyr 2015 a derbyniwyd y dylid ei thalu.

A15084 – Llynddwr, Llandysul – Renovation of former farmhouse and cowshed to form dwelling

---

8) Financial Information

**Invoices:**-
*(i)* Llinos Jones – Invoice for December 2015 translation was received and passed for payment.